

Gwahoddiad i dendro

Teitl:	Artist cARTrefu
Prosiect:	cARTrefu, Prosiect celfyddydau cyfranogol y celfyddydau mewn cartrefi gofal
Dyddiad cau:	12.00pm, 21 Ebrill 2017

Pwrpas y ddogfen hon yw darparu cefndir cARTrefu i chi, sef prosiect y celfyddydau mewn cartrefi gofal Age Cymru, yn ogystal â'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch i gyflwyno tendr i fod yn un o'n hartistiaid newydd ar gyfer ail gyfnod cARTrefu.

Y Rôl

Mae Age Cymru'n chwilio am **ddeuddeg** artist ar gyfer cyfnod nesaf cARTrefu (2017-19), a fydd yn gwella ansawdd a darpariaeth y celfyddydau mewn cartrefi gofal ledled Cymru. Rydym yn chwilio am artistiaid arloesol mewn unrhyw ffurf gelf sydd â dyhead i greu gwaith beiddgar a gwreiddiol gyda phobl hŷn mewn cartrefi gofal. Nid cynnal yr arferol yw amcan y prosiect hwn; rydym ni eisiau unigolion sydd â syniadau newydd a ffres sydd â'r gallu i herio a datblygu'r maes gwaith hwn. Croesawn waith grymus, mentrus, beiddgar a dadleuol – nid ydym yn edrych am waith diogel, arferol a blinedig.

Bydd angen profiad arnoch o gynnal gweithdai gan ddefnyddio'ch ffurf gelf; fodd bynnag, nid yw profiad o weithio gyda phobl hŷn yn hanfodol, gan fod y rhaglen wedi cael ei chynllunio i gynorthwyo ymarferwyr i ddatblygu eu sgiliau yn y maes hwn. Anogwn y rheiny sydd â rhywfaint o brofiad o weithio gyda phobl hŷn i ymgeisio o hyd, os ydynt yn awyddus i ddatblygu eu sgiliau ymhellach a chydweithio â mentor arbenigol.

Bydd eich rôl fel Artist cARTrefu yn cynnwys datblygu eich arfer artistig eich hun, gan gymhathu eich profiadau o greu celf gyda phobl hŷn mewn gofal preswyl. Byddwch yn cwblhau pum cyfnod preswyl dros ddwy flynedd mewn pum cartref preswyl gwahanol ledled Cymru. Bydd pob cyfnod preswyl yn para 12 wythnos, a bydd disgwyl i artistiaid arddangos y gwaith celf a gynhyrchwyd ganddyn nhw a'r preswylwyr mewn arddangosfeydd ar ddiwedd pob cyfnod preswyl, a fydd yn cael eu cydlynu gan Age Cymru.

Bydd Artistiaid cARTrefu'n cael eu mentora trwy gydol pob cyfnod preswyl gan Fentor Artist, a fydd wrth law i helpu pob artist i ddatblygu eu syniadau creadigol ac

arfer gweithdai proffesiynol. Yn ogystal, bydd y mentoriaid yn gweithio'n agos â staff y cartrefi gofal, er mwyn eu cefnogi nhw i ddarparu gweithdai creadigol erbyn diwedd y cyfnod preswyl.

Cyfanswm gwerth y tendr hwn yw **£8,550**. Bydd Age Cymru'n talu treuliau fel costau teithio a deunyddiau ar wahân. Y dyddiad cau ar gyfer cynigion yw **21 Ebrill 2017 am 12:00pm**.

Age Cymru

Age Cymru **yw'r** elusen genedlaethol ar gyfer pobl hŷn yng Nghymru. Rydym yn gweithio i wella bywydau pobl hŷn. Rydym yn dathlu heneiddio ac yn credu ei fod yn cynnig cyfleoedd a heriau digynsail, adref a thramor. Rydym yn herio rhagfarn yn erbyn oedran mewn cymdeithas. Rydym yn helpu pobl i fwynhau bywydau gwell wrth iddynt heneiddio trwy ddarparu gwasanaethau gwella bywyd a chymorth hollbwysig. Mae ein gwasanaethau ymarferol yn helpu pobl i gynnal eu hannibyniaeth yn y cartref ac i barhau i wneud y pethau y maen nhw'n eu caru fwyaf. Yn ogystal, rydym yn gweithio i fynd i'r afael ag arwahanu ac i gynnal iechyd da. Rydym yn cefnogi'r sectorau cyhoeddus a phreifat i gynllunio cynnyrch a gwasanaethau sy'n ystyriol o oed. Mae ein gwasanaeth gwybodaeth a chyngor yn cynnig cymorth ar ystod eang o faterion – o hawlio budd-daliadau i aros yn heini ac yn iach.

cARTrefu

Rhaglen Age Cymru i wella mynediad at brofiadau celfyddydol o ansawdd da i bobl hŷn mewn gofal preswyl yw cARTrefu. Mae'r prosiect, sydd wedi cael ei gynnal ers mis Ionawr 2015, yn seiliedig ar fodel a grëwyd gan y *Courtyard Theatre* yn Henffordd ac mae'n cael ei ariannu gan Sefydliad Baring a Chyngor Celfyddydau Cymru. Caiff cARTrefu ei gynnal ar y cyd â Gŵyl Gwanwyn Age Cymru, sef gŵyl genedlaethol sy'n dathlu creadigrwydd ymhlith pobl hŷn.

cARTrefu: <http://www.ageuk.org.uk/cymru/health--wellbeing/cartrefu/>

Gwanwyn: <http://gwanwyn.org.uk/>

Cyfnod 1: 2015 -2017

Rhwng 2015 a 2017, roedd cARTrefu yn cynnwys 16 artist yn cwblhau cyfnodau preswyl mewn cartrefi gofal mewn pedair ffurf gelf: y Celfyddydau Perfformio, y Celfyddydau Gweledol, Geiriau a Cherddoriaeth. Mentorwyd pob ffurf gelf gan Fentor Artist a gefnogodd eu mentoreion trwy gydol eu datblygiad artistig, yn ogystal â thrwy ddatblygiad proffesiynol o ran hwyluso gweithdai gyda phobl hŷn mewn cartrefi gofal.

Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae ein 16 ymarferwr cARTrefu wedi gweithio mewn 8 cartref gofal o amgylch Cymru, gan gynnig 8 gweithdy dwy awr o hyd ym mhob cartref. Mae hynny gyfwerth â 1,024 o weithdai mewn 128 cartref gofal. Roeddent yn gallu cynnig y gweithdai hyn yn rhad ac am ddim, diolch i gymorth Cyngor Celfyddydau Cymru a Sefydliad Baring.

Pwrpas cARTrefu yw cyflwyno ffurfiau celf sefydledig a gweithgareddau newydd i breswylwyr na fyddent wedi cael profiad ohonynt o'r blaen o bosibl, ac i hybu lles y preswylwyr o ganlyniad i gymryd rhan. Mae cARTrefu wedi meithrin gwell gwerthfawrogiad o'r celfyddydau ymhlith staff cartrefi gofal wrth iddynt weithio gyda'n hartistiaid. Rydym wedi gweld staff cartrefi gofal yn dysgu sgiliau newydd a magu mwy o hyder wrth ymarfer y sgiliau hyn yn eu gwaith bob dydd gyda phreswylwyr, er mwyn sicrhau bod y celfyddydau a chreadigrwydd yn para'n hir ar ôl i gyfnodau preswyl ein hartistiaid ddod i ben.

Ers 2015, mae cARTrefu wedi datblygu i fod yn un o'r prosiectau mwyaf o'i fath yn Ewrop. Arddangoswyd canlyniadau cychwynnol gwerthusiad Prifysgol Bangor o cARTrefu yng nghynadled *Alzheimer's Europe* yn Copenhagen ym mis Tachwedd 2016.

Cyfnod 2: 2017 – 2019

Yn ddiweddar, rydym ni wedi sicrhau cymorth ariannol er mwyn parhau gyda cARTrefu am ddwy flynedd arall, felly rydym yn chwilio am y tîm nesaf, sef 3 mentor a 12 artist. Yn seiliedig ar adborth y tîm cARTrefu cyntaf, rydym ni wedi addasu model cARTrefu i weithio'n well dros ein hartistiaid a'n mentoriaid, yn ogystal â staff y cartrefi gofal a'r preswylwyr sy'n cymryd rhan.

- I feithrin arferion traws-ddisgyblaethol cyffrous, byddwn yn recriwtio tîm o artistiaid o ystod o ffurfiau celf, heb iddynt orfod cydymffurfio â'r categorïau canlynol: y Celfyddydau Perfformio, y Celfyddydau Gweledol, Geiriau a Cherddoriaeth.
- Rydym wedi ymestyn y cyfnodau preswyl o 8 wythnos i 12 wythnos er mwyn sicrhau bod yr artistiaid yn cael y cyfle gorau posibl i gysylltu ac ymgysylltu â phreswylwyr, ac archwilio pob maes o'u gwaith creadigol.
- Bellach, bydd artistiaid yn cwblhau 5 cyfnod preswyl dros gyfnod o ddwy flynedd.
- Ar gyfer cyfnodau preswyl 2-5, bydd disgwyl i artistiaid arddangos y gwaith celf a gynhyrchwyd ganddyn nhw a'r preswylwyr mewn arddangosfeydd ar ddiwedd pob cyfnod preswyl, a fydd yn cael eu cydlynu gan Age Cymru.
- Bydd rôl y mentor yn canolbwyntio ar gefnogi'r artist am dair sesiwn yn ystod pob cyfnod preswyl, cyn cydweithio â staff cartrefi gofal a enwebwyd am dair

sesiwn, er mwyn eu cynorthwyo nhw i gynnal eu gweithgareddau eu hunain erbyn y gweithdy olaf.

Y Briff:

Mae cARTrefu wedi ymrwymo i wthio ffiniau celf i'r eithaf. Rydym ni'n chwilio am artistiaid sydd eisiau creu gwaith gwreiddiol a beiddgar gyda phreswylwyr mewn cartrefi gofal. Rydym ni eisiau i chi ein synnu wrth arloesi; rydym ni eisiau artistiaid sy'n fodlon wynebu syniadau dadleuol neu bynciau anodd, artistiaid a fydd yn cofleidio celf a chreadigrwydd er mwyn mynegi eu hunain i'r eithaf.

Fel Artist cARTrefu, bydd angen i chi:

1. Gyflwyno gweithdai i bobl hŷn mewn cartrefi gofal preswyl, gan gwblhau pum cyfnod preswyl deuddeg wythnos o hyd mewn pum cartref gofal gwahanol ledled Cymru dros gyfnod o ddwy flynedd.
2. Arddangos hanes o arfer creadigol arloesol, beiddgar, mynegiannol a thrawiadol, yn ogystal ag arddangos syniadau eglur o ran y pethau yr hoffech chi eu harchwilio ac, o bosibl, eu creu yn ystod eich cyfnodau preswyl cychwynol.
3. Cyffroi ac ysbrydoli pobl, nad ydynt efallai wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydol ers amser maith, i greu gwaith celf beiddgar.
4. Ysbrydoli staff cartrefi gofal i weld celf fel rhan hanfodol o fywyd bob dydd, yn ogystal â gweithio gyda nhw (a'ch Mentor Artist) i alluogi staff i gynnal sesiynau creadigol gyda'r preswylwyr ar ddiwedd pob cyfnod preswyl.
5. Bod yn agored ac yn frwdfrydig i archwilio eich arfer eich hun, gydag arweiniad eich Mentor Artist a thîm prosiect cARTrefu.
6. Ysgrifennu cyfnodolyn myfyriol ar ôl pob sesiwn a'i rannu gyda'ch Mentor Artist a thîm prosiect cARTrefu er mwyn cyfathrebu'n rheolaidd ynghylch datblygiad eich cyfnod preswyl.
7. Gweithio tuag at, paratoi gwaith ar gyfer, a chreu arddangosfeydd ar ddiwedd y cyfnodau preswyl gyda thîm prosiect cARTrefu.
8. Mynychu fforymau chwarterol cARTrefu gyda thîm prosiect cARTrefu.
9. Cydweithio â chydweithwyr cARTrefu yn Age Cymru a gwerthuswyr er mwyn cefnogi gwerthuso'r prosiect yn effeithiol.

10. Cynnal perthnasoedd gwaith cadarnhaol gyda'r cartrefi gofal er mwyn sicrhau bod amcan cARTrefu o gyfoethogi bywydau pobl hŷn yn greadigol mewn gofal yn cael ei ddiwallu.

Nid yw'r briff hwn yn gynhwysfawr ym mhob agwedd; yn hytrach, ei nod yw diffinio'r pwrpas a'r cyfrifoldebau sylfaenol. Bydd angen i artistiaid cARTrefu weithio oriau hyblyg er mwyn cydymffurfio ag anghenion y cartrefi gofal a'u Mentoriaid Artist.

Mae mynediad at gerbyd yn hanfodol a bydd angen i bob artist fod yn destun gwiriad manwl gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Fel rhan o'r briff, mae disgwyl i artistiaid ymgymryd â phob tasg arall resymol a pherthnasol, yn unol â chyfarwyddiadau tîm rheoli cARTrefu. Mae'r gallu i siarad Cymraeg yn ddymunol.

Bydd y ffi o £8,550 yn talu am y canlynol:

- Cwblhau pum cyfnod preswyl deuddeg wythnos o hyd dros gyfnod o ddwy flynedd.
- Mynychu cyfarfodydd fforwm chwarterol cARTrefu.
- Mynychu sesiynau hyfforddi artistiaid cyn cychwyn ar y cyfnod preswyl cyntaf.
- Cwblhau cyfnodolion myfyriol ar ôl pob sesiwn.
- Arddangos gwaith yn llwyddiannus ar ddiwedd pob cyfnod preswyl.
- Cwblhau gwerthusiad o brosiect cARTrefu.

Caiff rôl Artist cARTrefu ei phenodi ar sail lawrydd tymor sefydlog tan 2019.

Amserlen y Prosiect

21 Ebrill	Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau (12pm)
8 - 11 Mai	Cyfweliadau yng Nghaerdydd (lleoliad i'w gadarnhau)
w/dechrau 5 Mehefin	Hyfforddiant artistiaid cARTrefu
w/dechrau 12 Mehefin	Cychwyn ar y cyfnodau preswyl
-	

-

Tendr

Gofynnwn i chi gyflwyno cais am dendr erbyn dydd Gwener 7 Ebrill (12:00pm), i gynnwys:

- Disgrifiad o'ch arfer artistig.
- Dolenni ar-lein / ffotograffau / adroddiadau o brosiectau blaenorol rydych wedi gweithio arnynt.
- CV yn dangos eich profiad o weithio mewn cartrefi gofal, yn ogystal ag unrhyw brofiad perthnasol arall o gynnal gweithdai.
- Geirda o ddau brosiect arall rydych wedi bod yn rhan ohonynt.

Yn ogystal, gofynnwn i chi gynnwys atebion i'r cwestiynau canlynol (hyd at dudalen yr un):

Yn seiliedig ar eich profiad a dyhead cARTrefu i greu celf ddewr ac arloesol mewn cartrefi gofal:

- 1. Sut byddech chi'n mynd i'r afael â'r her o ysbrydoli preswylwyr cartrefi gofal i greu gwaith celf beiddgar a thrawiadol?**
- 2. Pe byddech yn llwyddiannus, pa themâu, syniadau neu faterion hoffech chi eu harchwilio gyda phreswylwyr, a pha fath o waith celf arloesol hoffech chi ei gyflawni?**

Anfonwch eich cais am dendr at Reg Noyes, Cyd-drefnydd Prosiect cARTrefu:

reg.noyes@agecymru.org.uk